# Y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau

## Cofnodion EIN(2) 10-06

### Dyddiad y cyfarfod: 22 Tachwedd 2006
### Amser y cyfarfod: 9.30 – 12.55
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 2, Y Senedd, Bae Caerdydd

#### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Christine Gwyther (Cadeirydd) | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Leighton Andrews | Rhondda |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Andrew Davies (Gweinidog) | Gorllewin Abertawe |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Alun Ffred Jones | Caernarfon |
| Carl Sargeant | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Kirsty Williams | Brycheiniog a Sir Faesyfed |

#### Swyddogion yn Bresennol

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Gareth Hall | Cyfarwyddwr Menter, Arloesi a Rhwydweithiau |
| Bob Macey | Prif Weithredwr Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| Mark Osland | Pennaeth Cyllid a Chynllunio |
| Robin Shaw | Prif Weithredwr Trafnidiaeth Cymru |

#### Eraill yn Bresennol

| Enw | Yn Cynrychioli |
|---|---|
| Simon Pickering | Rheolwr Passenger Link , Passenger Focus |
| Stella Mair Thomas | Cynrychiolydd Cymru, Passenger Focus |

**Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad**

| Enw | Teitl Swydd |
|---|---|
| Claire Morris | Clerc y Pwyllgor |
| Abigail Phillips | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol GSC |
| Graham Winter | Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau**

1.1 Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau.

1.2 Mae cofnod gair-am-air o’r cyfarfod ar gael.

**Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion yn codi**
**Papur: EIN(2) 07-06 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Hydref**
**EIN(2) 08-06 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Hydref**
**EIN(2) 10-06 – Camau heb eu cymryd**

2.1 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfoydd a gynhaliwyd ar 5 Hydref a 18 Hydref yn gywir.

**Eitem 3: Adroddiad y Gweinidog**
**Papur: EIN(2) 10-06 p1- Adroddiad y Gweinidog**

3.1 Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog.

**Camau i’w cymryd:**

- Byddai’r Gweinidog yn cyflwyno’r wybodaeth ddiweddaraf am yr anawsterau o ran agor llwybrau arfordirol a’r cynnydd a wnaed wrth geisio’u goresgyn.
- Yn ystod y cyfarfod nesaf, byddai’r Gweinidog yn cyflwyno’r wybodaeth a ddefnyddiwyd wrth benderfynu ynghylch ad-drefnu Comisiwn Sgr?Cymru.
- Byddai cynrychiolwyr First Great Western, yr Adran Drafnidiaeth a Passenger Focus yn cael

gwahoddiad i drafod newidiadau yn yr amserlen a gostwng lefelau gwasanaethau.

- Byddai gwybodaeth yn cael ei chyflwyno ynghylch sut yr oedd y gwasanaethau cymorth busnes yn gweithio ers yr uno; sut a ble'r oedd Llygad Busnes yn cael ei hysbysebu; ac a oedd hynny'n rhoi gwerth am arian fel rhan o'r Adolygiad Menter a gaiff ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn y Flwyddyn Newydd.
- Byddai'r Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am hynt y trafodaethau ?146;r Comisiwn Ewropeaidd yng nghyswllt Rhaglen Cydgyfeirio 2007-2013 ac am y modd y caiff cronfeydd strwythurol eu gwario yn y cylch nesaf.
- Byddai cynhadledd fideo gyda Graham Meadows, Cyfarwyddwr Cyffredinol DG Regio, yn cael ei threfnu i drafod cronfeydd strwythurol.
- Byddai Robin Shaw yn trafod y cynlluniau i gau ac ailagor y bont yn Saltney gyda Network Rail ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor.
- Byddai'r Gweinidog yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor sut y byddai Cymru yn elwa wrth gynnal g? brawf Cyfres y Lludw a Chwpan Ryder.
- Byddai'r Gweinidog yn cyflwyno papur am y cynnydd a wnaed o ran datblygu a hyrwyddo Llwybrau Cenedlaethol.

**Eitem 4: Rhestr o Is-ddeddfwriaeth**
**Papur: EIN(2) 10-06 p2**

4.1 Ystyriodd y Pwyllgor y Rhestr o Is-ddeddfwriaeth. Ni nodwyd unrhyw eitemau o Is-ddeddfwriaeth i graffu ymhellach arnynt.

**Eitem 5: Adroddiad Chwarterol WEFO**
**Papur: EIN(2) 10-06 (p3)**

5.1 Trafododd y pwyllgor Adroddiad Chwarterol Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

**Camau i'w cymryd:**

- Byddai'r Gweinidog yn paratoi nodyn yn trafod y wybodaeth a fyddai'n cael ei rhoi i'r Pwyllgor mewn perthynas ?awliadau twyllodrus, gan ystyried cyfyngiadau cyfrinachedd masnachol.

**Eitem 6: Cyllideb Ddrafft yr Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau 2007-08**
**Papur: EIN(2) 10-06 (p4)**

6.1 Ystyriodd y Pwyllgor Gyllideb Ddrafft yr Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau 2007-08.

**Camau i'w cymryd:**

- Byddai'r Gweinidog yn rhoi gwbod faint o gyllideb ddrafft yr Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau sy'n wariant ymrwymedig a faint sy'n weddill ar gyfer gwariant dewisol.
- Byddai'r Gweinidog yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y rhesymau dros y gostyngiad yn y rhaglen refeniw ar gyfer pecynnau adnewyddu a'r mathau o gynlluniau y byddai hyn yn

effeithio arnynt.

- Byddai'r Gweinidog yn rhoi ffigyrau sydd wedi'u dadgyfuno ar gyfer gwella gwasanaethau rheilffyrdd ac awyr yng nghyswllt gwariant refeniw a chyfalaf.
- Byddai'r Clerc yn drafftio llythyr yn amlinellu barn y Pwyllgor. Byddai hwn yn cael ei ddosbarthu i'r Aelodau ei gymeradwyo cyn ei gyflwyno i'r Gweinidog.

**Eitem 7: Passenger Focus – Y wybodaeth ddiweddaraf gan Gynrychiolydd Cymru**
**Papur: EIN(2) 10-06 (p5)**

7.1 Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan Gynrychiolydd Cymru Passenger Focus

## Gwasanaeth y Pwyllgorau